**PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**30 MEDI 2021**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 24 Mawrth 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Neville Phillips (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Chris Bithell, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Ian Smith ac Arnold Woolley.

**DIRPRWYON:**
Cynghorwyr: Joe Johnson dros Ted Palmer a Sean Bibby dros David Evans.

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Bernie Attridge a David Healey.

**HEFYD YN BRESENNOL YN ARSYLWI:**
Y Cynghorydd Patrick Heesom.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Llywodraethu), Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Dirprwy Swyddog Monitro ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

## 22. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 23. COFNODION

Byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**PENDERFYNWYD:**

Cyflwyno cofnodion mis Mehefin i gyfarfod mis Tachwedd.

## 24. DIWYGIADAU I'R COD YMARFER CYNLLUNIO

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad gan egluro bod y Pwyllgor wedi ystyried ym mis Mawrth 2021 adolygu'r Protocol ar gyfer Cyfarfod Contractwyr, fel rhan o adolygiad treigl y Pwyllgor o Gyfansoddiad y Cyngor. Cafodd y rhannau o'r Protocol oedd yn ymwneud ag Aelodau a'u Trafodion â Chontractwyr/Datblygwyr a Thrydydd Parti eraill a allai fod yn ymgeisio neu'n ceisio contract gyda'r Cyngor eu diweddaru.

Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r rhannau o'r Protocol ar gyfer Cyfarfodydd â Chontractwyr oedd yn rhoi cyngor o ran Datblygwyr gael eu cynnwys yn y Cod Ymarfer Cynllunio ac y dylid ei ddiweddaru'n briodol.

Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2021, pan gafodd y Protocol diwygiedig ei gymeradwyo, gofynnodd Aelodau hefyd am i gyngor gael ei ychwanegu at y Cod Ymarfer Cynllunio ar y broses ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Ystyriodd y Grŵp Strategaeth Cynllunio y newidiadau arfaethedig uchod i'r Cod Ymarfer Cynllunio ar 13 Mai 2021 a 10 Mehefin 2021 a gwnaed nifer o addasiadau ychwanegol, fyddai o gymorth i Aelodau oedd yn rhan o'r broses gynllunio. Yn ychwanegol, cynigiodd y Pwyllgor Safonau ddiwygiadau ychwanegol pellach ar 5 Gorffennaf 2021. Cafodd yr holl ddiwygiadau hyn eu hatodi i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro nad yw'n ofynnol i holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gael holl fanylion y cynnig yn y cyfnod ymgynghori statudol cyn ymgeisio. Dylid cysylltu â'r Aelodau Lleol fel y gallant gynghori am unrhyw faterion lleol i helpu'r datblygwr baratoi'r cais. Roedd angen i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gael eu gweld i fod yn ddiduedd gyda datblygwyr.

Wrth ymateb i gwestiwn arall, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu), os bydd y cymydog yn gofyn i Aelod edrych ar y safle o'i eiddo yn ystod ymweliad safle, ni fyddai hyn yn dderbyniol dim ond os byddai pob Aelod ar yr ymweliad safle yn mynd i weld y safle. Yn ychwanegol, ni ddylai ymweliadau safle gynnwys sgyrsiau ag aelodau o'r cyhoedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell am wybodaeth am y broses apeliadau. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod y cynigwyr ac eilydd y cynnig yn erbyn argymhelliad y swyddogion yn cael eu gwahodd i gyfarfod â'r Swyddog Cynllunio perthnasol i baratoi datganiad mewn ymateb i apêl.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell a ellid rhoi unrhyw fanylion yn adran 15, Cwynion. Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gellid cynnwys y Weithdrefn Gwynion Gyhoeddus. Roedd proses uwchgyfeirio ar gyfer Cynghorwyr oedd wedi codi mater a heb gael ymateb, ond ni fyddai'r manylion hyn yn cael eu rhoi mewn dogfen gyhoeddus. Gofynnodd hefyd a ellid cynnwys adran yn y Cod Ymarfer Cynllunio i egluro y gellir darparu cyflwyniadau ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr ymgeisydd, y sawl sydd o blaid y cais a'r sawl sydd yn erbyn y cais, i sicrhau bod eu datganiad yn gallu cael ei ddarllen ar eu rhan gan swyddog os na fyddant yn gallu mynychu'r cyfarfod.

Awgrymodd y Cynghorydd Peers y dylai'r geiriad "pan ofynnir amdano, dylid darparu cymorth o'r fath yn brydlon", gael ei gynnwys yn adran 2.4.2.

Yn adran 4.3.1, holodd y Cynghorydd Peers a ddylid newid y geiriad, i "un ai dan yr eitem ar gyfer datgan buddiant neu ar yr eiliad pan fo'r Aelod yn sylweddoli bod ganddynt fuddiant".

Croesawodd y Cynghorydd Peers y diweddariadau i adrannau 8.1 ac 8.2. Ar gytundebau Adran 106, roedd yn teimlo y dylai pob Aelod o'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r trafodaethau a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Pwyllgor. Roedd hefyd yn teimlo, pan fydd cynigwyr wedi crynhoi, gan amlinellu eu rhesymau dros wrthod, y dylid gofyn i weddill y Pwyllgor a ydynt yn cytuno â'r rhesymau dros

wrthod. Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gellid trafod y ddau gynnig yna yn y Grŵp Strategaeth Cynllunio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Smith, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu rhaglenni a chofnodion y Grŵp Strategaeth Cynllunio i holl Aelodau'r Cyngor.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Chris Bithell ac eiliodd y Cynghorydd Mike Peers, yn cynnwys y canlynol fel y cynigiwyd yn ystod y drafodaeth:

- Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn cynnwys y Weithdrefn Gwynion Gyhoeddus yn Adran 15
- Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn cynnwys adran i egluro y gellir darparu cyflwyniadau ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr ymgeisydd, y sawl sydd o blaid y cais a'r sawl sydd yn erbyn y cais, i sicrhau bod eu datganiad yn gallu cael ei ddarllen ar eu rhan gan swyddog os na fyddant yn gallu mynychu'r cyfarfod
- Bod y geiriad "pan ofynnir amdano, dylid darparu cymorth o'r fath yn brydlon", yn cael ei gynnwys yn adran 2.4.2
- Bod y geiriad yn 4.3.1 yn cael ei newid i "un ai dan yr eitem ar gyfer datgan buddiant neu ar yr eiliad pan fo'r Aelod yn sylweddoli bod ganddynt fuddiant"
- Bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio yn ystyried awgrym y Cynghorydd Peers ar roi gwybod i holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn y cyfarfod am unrhyw drafodaethau ar gytundebau Adran 106 ac a ddylid gofyn i bob Aelod o'r Pwyllgor a ydynt yn cytuno â'r rhesymau dros wrthod pan fydd y cynigiwr wedi crynhoi

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y pwyllgor yn cymeradwyo'r addasiadau i'r Cod Ymarfer Cynllunio fel y nodwyd yn y newidiadau i Atodiad 1 yr adroddiad.

(b) Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn cynnwys y Weithdrefn Gwynion Gyhoeddus yn Adran 15;

(c) Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn cynnwys adran i egluro y gellir darparu cyflwyniadau ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr ymgeisydd, y sawl sydd o blaid y cais a'r sawl sydd yn erbyn y cais, i sicrhau bod eu datganiad yn gallu cael ei ddarllen ar eu rhan gan swyddog os na fyddant yn gallu mynychu'r cyfarfod;

(d) Bod y geiriad "pan ofynnir amdano, dylid darparu cymorth o'r fath yn brydlon", yn cael ei gynnwys yn adran 2.4.2;

(e) Bod y geiriad yn 4.3.1 yn cael ei newid i "un ai dan yr eitem ar gyfer datgan buddiant neu ar yr eiliad pan fo'r Aelod yn sylweddoli bod ganddynt fuddiant"; a

(f) Bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio yn ystyried awgrym y Cynghorydd Peers ar roi gwybod i holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio cyn y cyfarfod am unrhyw drafodaethau ar gytundebau Adran 106 ac a ddylid gofyn i bob Aelod o'r Pwyllgor a ydynt yn cytuno â'r rhesymau dros wrthod pan fydd y cynigiwr wedi crynhoi.

**25. <u>CYNEFINO I AELODAU YN 2022:</u> <u>YMGYNGHORIAD AR DDRAFFT CYNTAF Y RHAGLEN GYNEFINO I AELODAU</u>**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac eglurodd, ar ôl etholiadau'r Cyngor cyfan, oedd yn digwydd ar gylch pum mlynedd, roedd Rhaglen Gynefino i Aelodau yn cael ei chynnig. Bwriad y rhaglen oedd cynnwys Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd.

I Aelodau newydd, byddai'r pwyslais ar roi cyflwyniad i'w rôl newydd a rhannu gwybodaeth i'w galluogi i ddechrau eu datblygiad fel Cynghorydd.

I Aelodau sy'n dychwelyd, y nod fyddai adnewyddu gwybodaeth, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a sgiliau ychwanegol pan fo angen.

Roedd y Rhaglen wedi cael ei chyflwyno i Arweinwyr Grŵp ble'r oedd yn cael ei gefnogi.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell a oedd angen cyhoeddi dyfeisiau RSA i Aelodau o hyd. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd bod y dyfeisiau RSA yn cael eu hadeiladu i'r gliniaduron oedd yn cael eu cyhoeddi i Aelodau erbyn hyn. Mewn ymateb i gwestiwn arall, eglurodd y byddai'r 'Pwy yw Pwy' yn rhoi manylion yr uwch swyddogion. Byddai manylion cyswllt swyddogion eraill ar gael ar yr Infonet. Cydnabuwyd y byddai angen amserlen i gyflwyno Aelodau i gyfarfodydd dros y we. Gofynnodd y Cynghorydd Bithell am wybodaeth ynghylch sut gallai Aelodau eu diogelu eu hunain. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y ddogfen yn cael ei diweddaru ac y byddai'n cael ei chylchredeg i'r holl Aelodau. Mewn ymateb i sylw ar broblemau TG, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi manylion gwasanaeth trywydd cyflym sydd ar gael i Aelodau wrth gysylltu â'r Ddesg Gymorth TG. Awgrymwyd y dylid rhannu'r amserlen gynefino ag ymgeiswyr cyn yr etholiad.

Roedd y Cynghorydd Smith yn croesawu'r sesiynau gyda'r nos.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Chris Bithell a'u heilio gan y Cynghorydd Ian Smith.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Nodi'r sylwadau ar Raglen Gynefino Aelodau 2022; a

(b) Cyflwyno'r awgrymiadau i'w cynnwys yn y Rhaglen Gynefino Aelodau i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

## 26. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WEITHDAI, SESIYNAU BRIFFIO A SEMINARAU I AELODAU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac eglurodd ei fod yn rhoi manylion am y digwyddiadau a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mawrth 2021 a'r rhai oedd ar y gweill.

Yn y tabl a ganlyn, mae'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ers y diweddariad diwethaf, yn cynnwys tri digwyddiad a oedd heb eu cynnal eto, a hefyd nifer yr Aelodau oedd yn bresennol fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf:

| Dyddiad | Amser | Digwyddiad | Nifer yn bresennol |
|---|---|---|---|
| 30.06.21 | 11.00 a.m. | Sesiwn Briffio i'r Holl Aelodau ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig / Amcangyfrifon Cyllideb 2022 | 34 |
| 30.06.21 | 6.00 p.m. | Trydydd Sesiwn Cyfeillion Dementia | 9 |
| 06.07.21 | 2.00 p.m. | Sesiwn Briffio i'r Holl Aelodau ar Ailgylchu | 32 |
| 08.07.21 | 4.30 p.m. | Gweithdy Ymgynghori i Aelodau'r Pwyllgor CYSAG | 4 |
| 20.07.21 | 6.00 p.m. | Sesiwn Briffio i'r Holl Aelodau ar Ailgylchu | 14 |
| 12.10.21 | 2.00 p.m.<br>6.00 p.m. | Cefnogi Teuluoedd Sir y Fflint: Dull wedi'i seilio ar Dystiolaeth yn Canolbwyntio ar Berthnasau | |
| I'w benderfynu | | Aflonyddu Ar-lein | |
| 08.12.21 | 2.00 p.m<br>6.00 p.m. | Hyfforddiant Blynyddol Rheoli Trysorlys | |

Gwahoddodd Aelodau i gysylltu ag ef gydag unrhyw awgrymiadau yr oeddent yn dymuno eu cyflwyno ar gyfer digwyddiadau datblygu Aelodau yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell y byddai'n hoffi cael hyfforddiant ar y meddalwedd Cynllunio newydd cyn gynted y bydd ar gael.

Cynigiodd y Cynghorydd Joe Johnson yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bob Connah.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r cynnydd gyda'r Gweithdai, Sesiynau Briffio a'r Seminarau i Aelodau ers yr adroddiad diwethaf; a

(b) Cyflwyno unrhyw awgrymiadau ar gyfer Gweithdai, Sesiynau Briffio neu Seminarau i Aelodau yn y dyfodol i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

## 27. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.23pm)

..............................

**Cadeirydd**